# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# 22AIN GORFFENNAF, 2016

**YN BRESENNOL:** **Y Cynghorydd A. Lloyd Jones (Is-Gadeirydd)**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Caerfyrddin</u>:-**

**Y Cynghorwyr W.J.W. Evans, P.E.M. Jones ac W.G. Hopkins**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Ceredigion</u>**

**J.D. Rowland Jones a T. Haydn Lewis**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Penfro</u>**

**Y Cynghorwyr R. Summons a T. Wilcox**

**<u>Aelodau o Gyngor Sir Powys</u>**

**Y Cynghorwyr D.O. Evans, G. Jones a P. Medlicott**

**<u>Aelod Annibynnol</u>**

**Yr Athro I. Roffe**

**<u>Yn bresennol o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu</u>**

**Mr D. Llywelyn - Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu**

**Mrs C. Morgans – Pennaeth y Staff**

**Ms J. Woods – Prif Swyddog Ariannol**

**Roedd y swyddogion canlynol hefyd yn bresennol: -**

**<u>Cyngor Sir Caerfyrddin:-</u>**

**Mrs W. Walters - Y Prif Weithredwr Cynorthwyol - Adfywio a Pholisi**

**Mr R. Edgecombe - Rheolwr Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol**

**Mrs D. Williams - Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau**

**Mr K. Thomas - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd**

**(Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Aberaeron – 10.30 a.m. – 12.10 p.m.)**

## 1. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd S. Yelland (Cyngor Sir Penfro) a Mr A. Edwards (Cadeirydd).

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant personol

## 3. COFNODION

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys oedd wedi ei gynnal ar 13eg Mai, 2016 i nodi eu bod yn gywir.**

## 4. MATERION YN CODI

### 4.1. Cofnod 8 - Grant y Swyddfa Gartref ar gyfer Gweithgareddau'r Panel

Cyfeiriwyd at y ffaith fod y grant a hawliodd y Panel gan y Swyddfa Gartref am 2014-16 yn llai na'r uchafswm lwfans, a gofynnwyd a oedd gan y Panel yr hawl i gadw'r dyraniad nas gwariwyd, neu a oedd yn rhaid ei ddychwelyd i'r Swyddfa Gartref.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol nad oedd y Panel yn derbyn cyllideb gan y Swyddfa Gartref, ond uchafswm grant y gallai ei hawlio mewn perthynas â'i ddyletswyddau. Roedd hawliadau am dreuliau yn cael eu cyflwyno ddwywaith y flwyddyn ac roedd yn rhaid cynnwys tystiolaeth ategol gyda'r rhain. Os oedd cyfanswm yr hawliadau hynny'n llai na'r uchafswm lwfans taladwy, roedd unrhyw ddyraniad nas hawliwyd yn cael ei gadw gan y Swyddfa Gartref ac ni ellid ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol ganlynol.

### 4.2. Cofnod 10 - Blaenraglen Waith Ddrafft

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch Blaenraglen Waith Ddrafft y Panel, dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol fod y gwaith paratoi ar y ddogfen honno'n parhau gyda golwg ar ei chyflwyno yn ystod cyfarfod y Panel ym mis Hydref.

### 4.3. Cofnod 11 - Cynyddu Presenoldeb y Panel yn y Cyfryngau

Dywedodd Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau wrth y Panel fod nifer o weithgareddau/mentrau wedi cael eu cynnal yn dilyn y cyfarfod diwethaf i hyrwyddo ei bresenoldeb yn y cyfryngau. Roedd y rhain yn cynnwys cyhoeddi datganiadau i'r wasg, adolygu gwefan y Panel gyda golwg ar gyflwyno drafft yn ei gyfarfod ym mis Hydref, cydgysylltu â'r awdurdodau lleol a berthyn iddo ynghylch gosod hysbysebion ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol, ynghyd ag estyn gwahoddiadau penodol i sefydliadau'r wasg ddod i'w gyfarfodydd.

Mewn ymateb i'r uchod, awgrymwyd y gellid llunio canllaw syml i'r cyhoedd a fyddai'n rhoi manylion am rôl y Panel, ei aelodaeth a manylion cyswllt perthnasol. Cadarnhaodd Rheolwr Cynorthwyol Marchnata a'r Cyfryngau y byddai'r wybodaeth a awgrymwyd yn cael ei chynnwys ar y wefan newydd.

Awgrymodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu fod modd i'r Panel gydweithio â'i swyddfa hefyd er mwyn egluro wrth y cyhoedd beth yw ei rôl ef a rôl ei swyddfa.

## 5. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Cafodd y Panel Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu am 2015/16 i'w ystyried yn unol â darpariaethau Adrannau 12 a 28 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Wrth ystyried yr adroddiad hwnnw, roedd y Panel yn cydnabod ei fod yn ymwneud â gweithgareddau'r cyn-Gomisiynydd Heddlu a Throseddu cyn ethol y Comisiynydd newydd ym mis Mai 2016.

# PANEL HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS

# 22AIN GORFFENNAF, 2016

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Mynegwyd pryder ynghylch y nifer cynyddol o ddamweiniau traffig ffyrdd difrifol ar hyd yr A40 a'r A487 a'r angen i'r heddlu gymryd camau i leihau'r niferoedd hynny.

  Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod wedi cael ei hysbysu ynghylch mater diogelwch ffyrdd/goryrru cyn iddo gael ei ethol, ac y byddai'n cynnwys hynny fel blaenoriaeth yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu.

- Cyfeiriwyd at y cynnydd mewn achosion o gam-drin domestig a gofnodwyd a dywedodd y Panel fod y Bwrdd Iechyd a Phwyllgor Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ceredigion wedi mynegi pryder ynghylch y cynnydd hwnnw na ellid, yn eu barn hwy, ei briodoli'n unig i newidiadau i ddulliau cofnodi a bod nifer yr achosion, mewn gwirionedd, yn cynyddu.

  Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod wedi codi'r mater mewn cyfarfod yn ddiweddar gan ddweud nad oedd cynnig newidiadau i'r dulliau cofnodi yn rheswm dros y cynnydd yn ddigon, ac y dylid ymchwilio ymhellach i ddeall pam yr oedd nifer yr achosion a gofnodwyd wedi dyblu o 200 i 400. Hefyd dywedodd er y dylid ystyried y newidiadau i ddulliau cofnodi yn beth cadarnhaol, y byddai angen i'r llu archwilio tueddiadau yn y dyfodol i gael gwybod a oedd y niferoedd presennol o achosion wedi cyrraedd lefel ddigyfnewid.

- Cyfeiriwyd at nifer y troseddau rhyw a gofnodwyd yn 2015/16, a gofynnwyd am eglurhad ynghylch sefyllfa bresennol cynnig y cyn-Gomisiynydd i ddarparu dwy Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol newydd i ddioddefwyr sy'n byw yng Ngheredigion a Phowys er mwyn osgoi'r angen i'w cludo i Gaerfyrddin ar gyfer archwiliad corfforol.

  Dywedodd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ei fod ar ddeall fod y ganolfan yn y Drenewydd, Powys yn gallu cynnal archwiliadau fforensig o dan amodau di-haint. Fodd bynnag, un o'r anawsterau mewn ardaloedd gwledig yw'r arbenigedd pediatrig sydd ar gael.

- Cyfeiriwyd at amseroedd ymateb yr heddlu i alwadau 101 a dywedodd y Comisiynydd fod aelod o'r panel wedi cael cwynion ynghylch amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig a diffyg gwybodaeth leol.

  Mewn ymateb dywedodd y Comisiynydd fod Ystafell Reoli'r Heddlu yn ymdrechu i wella amseroedd ymateb ac y byddai'n monitro'r rhain drwy Fwrdd Atebolrwydd yr Heddlu. Yn ogystal derbyniodd fod anghysondeb o ran amseroedd ymateb brys rhwng ardaloedd gwledig, sef 80-85%, ac ardaloedd trefol, sef 98%, o fewn cyfnod o 20 munud, a dywedodd ei fod wedi rhoi gwybod am y mater hwn i'r Prif Gwnstabl.

- Cyfeiriwyd at y darn yn yr adroddiad blynyddol ynghylch sicrhau safonau proffesiynoldeb uchel yn yr heddlu a thrin pobl â pharch. Er bod yr adroddiad yn nodi bod hynny'n faes blaenoriaeth, mynegwyd barn nad oedd yn ymddangos bod hynny'n cael ei adlewyrchu gan dôn yr heddlu o ran darparu hyfforddiant arbennig i grwpiau ethnig, a gofynnwyd a fyddai hynny'n cael sylw fel rhan o Gynllun Heddlu a Throseddu y Comisiynydd.

Dywedodd y Comisiynydd er nad oedd yn gallu rhoi sylwadau ynghylch cynllun ei ragflaenydd, ei fod wedi nodi'r mater ac y byddai'n ei ystyried wrth lunio ei gynllun.

- Cyfeiriwyd at y tanwariant o £50,000 o ran y gyllideb gomisiynu ar gyfer ymchwil a mynegwyd barn bod hynny'n gyfle a gollwyd na ddylai ddigwydd eto yn y blynyddoedd i ddod.

  Dywedodd y Comisiynydd fod ymgyrch genedlaethol i heddluoedd ddarparu polisïau seiliedig ar dystiolaeth, a bod rôl bwysig gan ymchwil yn hyn o beth. Cadarnhaodd y byddai'r tanwariant presennol yn cael ei drosglwyddo i'r flwyddyn ariannol bresennol, ac mai ei fwriad oedd sefydlu bwrdd seiliedig ar dystiolaeth y byddai'n gwahodd academyddion a gweithwyr proffesiynol eraill i gyfrannau ato, a chynorthwyo o ran ymchwil.

- Nodwyd bod tua 240 o achosion yn cael eu hatgyfeirio bob chwarter at wasanaethau camddefnyddio sylweddau ledled Dyfed-Powys a gofynnwyd am eglurhad ynghylch a oedd y Comisiynydd o'r farn fod digon yn cael ei wneud i leihau'r niferoedd hynny.

  Dywedodd y Comisiynydd mai ei fwriad fyddai rhoi sylw i'r maes hwnnw dros y pedair blynedd nesaf gyda golwg ar sicrhau, cyhyd ag y bo modd, fod cysondeb o ran y gwasanaeth sydd ar gael ledled ardal y llu.

- Cyfeiriwyd at y sefyllfa bresennol lle mae gweithwyr gofal cymdeithasol proffesiynol yn gorfod teithio i Gaerfyrddin er mwyn secsiynu pobl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a'r wasgfa ddilynol ar y gwasanaethau cymdeithasol ac ambiwlans/yr heddlu.

  Cadarnhaodd y Comisiynydd y byddai'n cydgysylltu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ynghylch y mater a godwyd, ynghyd â'r angen i weithio'n strategol ac i'r Bwrdd fuddsoddi mewn darparu adnoddau i gefnogi sefydliadau lleol. Hefyd atgoffodd y Panel fod y llu'n gweithredu system brysbennu ar hyn o bryd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda i wella cymorth a darparu asesiadau mwy amserol i bobl sy'n dioddef cyfnodau o drallod meddyliol.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch niferoedd swyddogion heddlu yn Heddlu Dyfed-Powys, dywedodd y Comisiynydd ei fod wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl rhoi sylw i'r mater hwnnw, gan roi ystyriaeth benodol i lefelau plismona gwledig ac adroddiad diweddar yr Arolygiaeth Cwnstabliaeth ynghylch y llu. Hefyd dywedodd na allai'r Prif Gwnstabl, wrth gynnal yr adolygiad hwnnw, ystyried niferoedd swyddogion heddlu yn unig, ond y byddai angen iddo hefyd ystyried nifer y gweithwyr proffesiynol eraill â sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gwaith y llu.

**PENDERFYNWYD derbyn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Heddlu a Throseddu 2015/16.**

## 6. ADRODDIAD CYNNYDD YNGHYLCH Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDDU

Cafodd y Panel adroddiad cynnydd i'w ystyried ynghylch Datblygu'r Cynllun Heddlu a Throseddu, yr oedd yn ofynnol i'r Comisiynydd Heddlu ei gyflwyno o dan Adran 5 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at y ffaith fod Heddlu Dyfed-Powys yn un o bedwar Heddlu yng Nghymru, a gofynnwyd a allai'r Cynllun Heddlu a Throseddu newydd gyfeirio at drefniadau cydweithio rhwng yr heddluoedd e.e. caffael.

  Cadarnhaodd y Comisiynydd fod cydweithio yn faes yr hoffai ei ystyried ymhellach a'i ddatblygu yn ystod y pedair blynedd nesaf. Fodd bynnag, byddai'n rhaid i drefniadau o'r fath fod o fudd i bobl Dyfed-Powys a sicrhau lefelau gwasanaeth uchel iddynt.

- Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch y ddarpariaeth teledu cylch cyfyng, dywedodd y Comisiynydd er na fyddai'n ystyried ailgyflwyno'r gwasanaeth, mai ei fwriad oedd ailfuddsoddi a gwella'r isadeiledd presennol. I'r perwyl hwnnw, byddai'n sefydlu tîm prosiect i ystyried y ddarpariaeth ledled ardal y llu ac, os yw'n briodol, ystyried sefydlu trefniadau partneriaeth ag awdurdodau lleol, byrddau iechyd a lleol a sefydliadau sector preifat a sector cyhoeddus.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad**

## 7. ADOLYGU'R TREFNIADAU LLYWODRAETHU

Rhoddodd y Panel ystyriaeth i drefniadau llywodraethu a gyflwynwyd gan y cyn-Gomisiynydd Heddlu a Throseddu.

Rhoddwyd sylw i'r cwestiynau/materion canlynol wrth drafod yr adroddiad:-

- Cyfeiriwyd at drefniadau gweithredu Bwrdd Atebolrwydd yr Heddlu a chwestiynwyd y Comisiynydd ynghylch ei atebolrwydd, o gofio ei fod yn Fwrdd anetholedig.

  Atgoffodd y Comisiynydd y Panel ei fod wedi'i ethol drwy broses ddemocrataidd ac mai ei rôl oedd sicrhau bod y Prif Gwnstabl yn atebol a'i fod yn cael ei archwilio ynghylch rheoli Heddlu Dyfed-Powys.

  Mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu presennol, atgoffodd y Panel fod y Bwrdd Plismona yn cwrdd bob pythefnos a bod cofnodion y cyfarfodydd hynny'n cael eu cyhoeddi ar y wefan. Roedd y Bwrdd Atebolrwydd Cyhoeddus yn cwrdd bob mis neu ddau ac roedd y cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd. Hefyd bu'n trafod â chadeirydd y Panel y posibilrwydd o gynnwys y Panel yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol, ac nid oedd yn gwrthwynebu hynny. Yn ogystal, byddai'n trefnu i'r Prif Gwnstabl newydd ddod gydag ef i gyfarfodydd y Panel yn y dyfodol yn dilyn ei benodiad/ei phenodiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

## 8. PENDERFYNIADAU'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU

Cafodd y Panel adroddiad, er gwybodaeth, ynghylch y penderfyniadau a wnaed gan y cyn-Gomisiynydd Heddlu a Throseddu am y cyfnod 15fed Ionawr hyd at 11eg Mai, 2016 a chan y Comisiynydd newydd am y cyfnod 12fed Mai hyd at 13eg Gorffennaf, 2016.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

**9. CWYNION A MATERION YMDDYGIAD**

Cafodd y Panel adroddiad ynghylch cwynion a materion ymddygiad a gofnodwyd yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throseddu yn dilyn ei gyfarfod blaenorol.

Dywedodd Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol wrth y Panel fod cwyn wedi dod i law gan Mr a Mrs Blackburn ynghylch y ffordd yr oedd y Comisiynydd Heddlu a Throseddu wedi ymdrin â chŵyn yr oeddent wedi'i gwneud ynghylch y Prif Gwnstabl. Dywedodd fod ystyriaeth o'r gŵyn yn cael ei chlywed drwy'r 'Broses Ddatrys Anffurfiol' a nodwyd yn Rhan 4 o Reoliadau Cyrff Plismona Lleol Etholedig (Cwynion a Chamymddygiad) 2012. Yn unol â hynny, dylai'r Panel ofyn cwestiynau i'r Comisiynydd ynghylch y gŵyn ac wedyn cyflwyno adroddiad ynghylch canlyniad ei ystyriaethau i'r Comisiynydd a'r achwynwyr.

Yn unol â chyngor Rheolwr y Gwasanaethau Cyfreithiol, gofynnodd y Panel gwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu ac, yn sgil rhoi ystyriaeth briodol i'r gŵyn:-

**PENDERFYNWYD anfon adroddiad at yr achwynwyr, ac at y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, gan fanylu ar ganlyniad y gŵyn.**

**LLOFNODWYD: ……………………………… DYDDIAD: ………………………………..**